Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y CABINET**
A gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor - Penmorfa **Dydd Mawrth, 5 Hydref 2021**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm ddydd Dydd Iau, 7 Hydref 2021. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unryw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 14 Hydref 2021 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 15 Hydref 2021

**YN BRESENNOL;** Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Cynghorydd Dafydd Edwards, Cynghorydd Rhodri Evans, Cynghorydd Catherine Hughes, Cynghorydd Gareth Lloyd, Cynghorydd Catrin Miles, Cynghorydd Ray Quant MBE a/ac Cynghorydd Alun Williams

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Bryan Davies, Ceredig Davies, Keith Evans, Rowland Rees-Evans, John Roberts a Lynford Thomas

(10.00 - 11.35 am)

**83 Ymddiheuriadau**

Dim

**84 Materion Personol**

Dim

**85 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Dim

**86 Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19**

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, ddiweddariad ar lafar o ran COVID-19. Nododd yr adroddwyd am 46 o achosion positif ddoe, gyda 19 y bore yma.

Ar hyn o bryd mae cyfradd yr achosion yng Ngheredigion yn 365.9 fesul 100,000 o'r boblogaeth, gyda chyfradd positifedd 11.9%. Mae achosion yn fwyaf cyffredin ymhlith pobl ifanc 10 i 19 oed. Nodwyd bod myfyrwyr wedi dychwelyd i'r Sir ond nad oeddent yn destun pryder ar hyn o bryd ond bydd hyn yn cael ei fonitro. Er y bu rhywfaint o darfu ar addysg, nid oedd yr un o'r ysgolion yng Ngheredigion wedi gorfod cau. Nododd yr Arweinydd, yn ystod cyfarfod gyda'r Gweinidog Addysg, fod awgrym bod Fframwaith ar waith sy'n caniatáu i fesurau lleol gael eu cyflwyno lle bo angen.

Bu cynnydd yn nifer yr achosion yn ardal Tregaron yn ddiweddar, gyda nifer yr achosion yn parhau i fod yn uchel yn ardal Aberteifi. Ar hyn o bryd mae 8 achos yn Ysbyty Bronglais. Dechreuwyd cyflwyno'r brechiad ar gyfer pobl ifanc 12 i 15 oed ddoe ac mae llythyrau apwyntiad yn cael eu rhoi. Nodwyd hefyd y dylai unrhyw un sydd wedi cael apwyntiad am frechlyn atgyfnerthu fynd i'w canolfan agosaf yn Llanbadarn neu Gwmcou ar yr amser a'r dyddiad a bennir ar lythyr yr apwyntiad, ac nad oes angen iddynt deithio ymhellach i ffwrdd.

Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad ar wasanaethau'r Cyngor gan nodi bod tri chartref gofal yn y categori coch oherwydd achosion ymhlith staff, sy'n golygu nad yw'r cartrefi gofal yn gallu cael derbyniadau newydd. Nododd hefyd fod problemau gyda recriwtio gweithwyr gofal, yn ddarparwyr cyhoeddus a phreifat, ac anogodd bawb i hyrwyddo'r cyfleoedd hyn.

Atgoffodd yr Arweinydd bawb fod angen masgiau o hyd mewn mannau cyhoeddus dan do ac ailadroddodd bwysigrwydd diheintio dwylo a sicrhau awyru da. Nodwyd hefyd y gellir cynnal digwyddiadau bellach ond, yn destun asesiadau risg priodol, a nodwyd bod staff ar gael i gynghori trefnwyr digwyddiadau.

**87 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy’n codi o’r Cofnodion hynny.**

**PENDERFYNIAD**

Cadarnhau yn gofnod cywir Gofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 7 Medi 2021

**Materion sy’n Codi:**

Dim

**88 Unrhyw ddeisebau a dderbynwyd**

Dim

**89 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Dim

**90 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda.**

Dim

**91 I ystyried adroddiad y Prif Weithredwr ar fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru**

**PENDERFYNIAD**

i. Cymeradwyo fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru er mwyn ei chyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn atodiadau canlynol yr adroddiad:

- Atodiad 1: Achos Busnes y Portffolio (fersiwn 1)
- Atodiad 2: Crynodeb Amlinellol o'r Rhaglen - Digidol (fersiwn 1 drafft)
- Atodiad 3: Crynodeb Amlinellol o'r Rhaglen – Tir ac Eiddo (fersiwn 1 drafft)
- Atodiad 4: Astudiaeth Gymhwysol Ymchwil ac Arloesi (fersiwn 1 terfynol)

ii. Os cymeradwyir fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio, i roi'r awdurdod i gyflwyno fersiwn ddrafft Achos Busnes y Portffolio i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru:

- I'w hadolygu'n ffurfiol trwy Adolygiad y Swyddog Cyfrifyddu, ar ran Bwrdd Gweithredu Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf Cymru – y Cyd-Fwrdd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sy'n llywodraethu Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf Cymru.
- I'w defnyddio fel sail ar gyfer drafftio Cytundeb Terfynol y Fargen – a fydd yn cael ei drafod gyda'r ddwy Lywodraeth a'i ddwyn yn ôl i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ac i Gabinetau'r ddau Awdurdod i'w adolygu a'i gymeradwyo'n derfynol.
- Awdurdodi'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151 (ynghyd â swyddogion cyfatebol yng Nghyngor Sir Powys) i wneud mân ddiwygiadau i Achos Busnes y Portffolio a allai fod eu hangen cyn eu cyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

***Rheswm dros y penderfyniad:***
*Er mwyn sicrhau bod Achos Busnes y Portffolio'n cael ei gyflwyno mewn pryd er mwyn cyflawni Cytundeb Terfynol y Fargen o fewn blwyddyn galendr 2021*

**92 I ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar Adroddiad Strategaeth Gydol Oes a Lles 2021 - 2027 gyda adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a Chymunedau sy'n Dysgu**
**PENDERFYNIAD**
Argymell y Strategaeth Gydol Oed a Lles 2021-2027 a'r Cynllun Gweithredu i'w cymeradwyo gan y Cyngor

***Rheswm dros y penderfyniad:***
*Argymell bod y Strategaeth Gydol Oed a Lles 2021-2027 yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor*

**93 I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella gyda adborth o'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**
**PENDERFYNIAD**
Cytuno ar Adroddiad Blynyddol drafft 2020-21 yr Amcanion Llesiant a Gwella

***Rheswm dros y penderfyniad:***
Symud ymlaen â chyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2020-21 yr Amcanion Llesiant a Gwella

**94 I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol,Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol gyda adborth o'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**
**PENDERFYNIAD**
Cael a chymeradwyo Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ebrill 2020 i Fawrth 2021 a chymeradwyo bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan gyhoeddus.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Mae'n ofynnol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ein bod yn cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-21 ac yn ei gyhoeddi ar ein gwefan gyhoeddus erbyn 31/3/22*

**95 I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Economi ac Adfywio ar Adroddiad sefyllfa Ffosffadau a'r Cynllun Datblygu Lleol**
**PENDERFYNIAD**

i. Argymell bod y Cyngor yn cytuno ar saib hyd dros dro ond amhenodol hyd yma ar gyfer mabwysiadu'r cynllun datblygu lleol newydd, a
ii. Ysgrifennu at Weinidogion Cymru Julie James, Vaughan Gething a Leslie Griffiths yn tynnu sylw at bryderon.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Caniatáu i waith pellach gael ei wneud o amgylch sefyllfa'r ffosffadau ar gyfer casglu tystiolaeth a chasglu data ac er mwyn dyfeisio atebion lliniaru, a sicrhau bod y cynllun newydd yn cwrdd â phrofion cadernid, yn gyflawnadwy ac yn addas i'r diben.*

**96 I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Priffyrdd a Gwasanaethau Democrataidd ar wahardd parcio a therfyn cyflymder ar B4548 Ffordd Gwbert**
**PENDERFYNIAD**
Cymeradwyo gwneud y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig angenrheidiol a chyhoeddi Hysbysiad Gwneud wedi hynny yn y wasg

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
Mae'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig arfaethedig yn rhan o gynllun a ariennir gan Grant Teithio Llesol a Grant Diogelwch ar y Ffyrdd

**97 I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Ysgolion a Diwylliant ar: cynrychiolwyr ar Fwrdd Llywodraethu Ysgolion**
**PENDERFYNIAD**
Cadarnhau enwebiad Jeremy Holmes fel cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol ar Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Aberteifi.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Enwebu cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethu*

**98 I nodi adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Pobl a Threfniadaeth ar Adroddiad y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2021 ac Adroddiad Cydraddoldeb y Gweithlu 2021**
Nododd y Cabinet yr adroddiad

**99 I nodi adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Cynnal ar Lythyr Sicrwydd Arolygaeth Gofal Cymru**
Nododd y Cabinet yr adroddiad

100 **I nodi adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd ar gofnod o gamau gweithredu a penerfyniadau'r Grŵp Ymgynghori Trawsbleidiol ar drawsnewid ac effeithlonrwydd**

Nododd y Cabinet yr adroddiad

101 **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

Dim

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2021**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________